

Yr hyn i'w wneud os na fyddwch yn hapus gyda'ch meddyg



Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Pwy ydym ni

Ni yw'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.



Rydym yn creu rheolau am y ffordd y dylai meddygon eich trin chi.



Os na fydd meddyg yn dilyn y rheolau hyn, gallwn eu stopio rhag bod yn feddyg.



Mae taflen hawdd i'w darllen ar gael am y rheolau y bydd angen i feddygon eu dilyn.

Ei henw yw **Mynd i weld y meddyg: Yr hyn ddylai ddigwydd** ac mae ar ein gwefan, seft www.gmc-uk.org/easyread



Mae gweddill y daflen hon yn nodi'r hyn i'w wneud os byddwch yn credu na fydd meddyg wedi dilyn y rheolau hyn.



Pa help y gallwn ni ei roi i chi

Gallwn eich helpu

- os bydd eich meddyg yn gwneud camgymeriad gwael gyda'ch triniaeth
- os na fydd eich meddyg yn gwneud y pethau cywir i ddarganfod pam eich bod yn sâl
- os bydd eich meddyg yn dweud celwyddau am unrhyw gamgymeriadau y maent wedi eu gwneud
- os bydd eich meddyg yn rhoi gwybodaeth breifat i bobl arall heb ofyn i chi yn gyntaf
- os bydd eich meddyg yn cyflawni trosedd.





Pethau na fyddwn yn gallu helpu gyda nhw

Ni fyddwn yn gallu rhoi help i chi gyda phethau fel

- gweld meddyg gwahanol



- staff iechyd nad nhw yw eich meddyg chi. Fel nyrs neu staff iechyd eraill



- os byddwch yn cweryla gyda'ch meddyg



- dweud wrth feddyg i roi meddyginiaeth i chi.



Os na fyddwch yn hapus gyda phethau fel hyn, dylai GIG fod yn gallu eich helpu.

GIG yw'r grŵp sy'n rhoi gofal iechyd i bobl.



Ewch i'r man lle y mae'ch meddyg yn gweithio i gael gwybod mwy am y ffordd y gallai GIG eich helpu chi.



Sut i ddweud wrthym os na fyddwch yn hapus gyda'ch meddyg

Gallwch lenwi'r ffurflen yng ngweddill y daflen hon.



Neu gallwch ddweud wrthym mewn ffordd arall. Ar ddiwedd y daflen hon, rydym yn nodi ffyrdd eraill o gysylltu â ni.



Am y broses o lenwi'r ffurflen

Efallai y byddwch yn dymuno gofyn i rywun eich helpu i ateb y cwestiynau sy'n ymddangos ar y tudalennau nesaf.




Os na fyddwch yn siŵr am unrhyw rai o'r cwestiynau, bydd hynny'n iawn.



Gallwch lenwi'r ffurflen

- trwy ysgrifennu eich atebion gyda phen ysgrifennu
- ar y cyfrifiadur.




Pam nad ydych yn hapus gyda'ch meddyg

1. Beth ddigwyddodd pan fuoch yn gweld y meddyg?

Dywedwch bethau fel hyn wrthym

- beth wnaeth y meddyg yn anghywir yn eich barn chi
- unrhyw un arall yr ydych wedi dweud wrthynt am yr hyn a ddigwyddodd. Er enghraifft, os gwnaethoch siarad gyda GIG.





Pam nad ydych yn hapus gyda'ch meddyg

2. Pryd wnaethoch chi weld y meddyg?



3. Ble wnaethoch chi weld y meddyg?



4. Pwy oedd y meddyg?



Sut allwn ni gysylltu â chi i ddweud wrthych am yr hyn y byddwn yn ei wneud nesaf

5. Dywedwch wrthym

Eich enw



Eich rhif ffôn



Eich cyfeiriad e-bost os oes gennych un



6. Sut ddylem ni gysylltu â chi?

Er enghraifft, gallwn roi gwybodaeth i chi

- gan ddefnyddio geiriau hawdd a lluniau



- dros y ffôn



- trwy ddefnyddio ysgrifen fawr.

Empty rounded rectangular box for notes or additional information.



Yr hyn y bydd angen i chi ei wybod yn gyntaf

Efallai y bydd angen i ni ddweud wrth eich meddyg neu bobl arall am eich cwyn.



Dim ond os byddwn yn gallu helpu gyda'ch cwyn y byddwn yn gwneud hyn.



Os byddwch yn anfon y ffurflen atom ni, mae hyn yn golygu eich bod yn cytuno i hyn.



Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon y ffurflen atom

Efallai y byddwn yn gofyn rhagor o gwestiynau am yr hyn a ddigwyddodd.

Byddwn yn dweud wrthyich beth fyddwn yn ei wneud nesaf.



Byddwn yn dweud os byddwn yn gallu eich helpu. Neu'n dweud wrthyich pwy y dylech siarad gyda nhw.



Ble i anfon y ffurflen

Rhowch y ffurflen mewn amlen a'i hanfon at

Cyngor Meddygol Cyffredinol
Fitness to Practice
3 Hardman Street
Manchester
M3 3AW



Bydd angen i chi roi stamp ar yr amlen.



Neu gallwch anfon y ffurflen mewn neges e-bost at
practise@gmc-uk.org



Cael gwybod mwy

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, gallwch

- ffonio 0161 923 6602



- ysgrifennu at
Cyngor Meddygol Cyffredinol
3 Hardman Street
Manchester
M3 3AW



- anfon e-bost at practise@gmc-uk.org



- edrych ar y rhan o'n gwefan sy'n cynnwys geiriau hawdd a lluniau, sef www.gmc-uk.org/easyread